**Ysgol Friars yn ymateb i gyhoeddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant**

Ar ddiwrnod cyhoeddi Adroddiad “Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder” gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru, mae Ysgol Friars wedi talu teyrnged i’r disgyblion a’r cyn-ddisgyblion sydd wedi dioddef, yn ymddiheuro iddynt eu bod wedi gorfod goddef profiadau erchyll, ac yn diolch iddynt am eu dewrder.

Mae Corff Llywodraethol ac Arweinyddiaeth Ysgol Friars yn derbyn canfyddiadau’r Adolygiad Ymarfer Plant yn llawn. Maent hefyd yn tanlinellu eu hymrwymiad llwyr i ddiogelu a chefnogi pawb sydd wedi eu heffeithio gan droseddau ac ymddygiad creulon cyn-bennaeth yr ysgol.

Bydd arweinyddiaeth yr ysgol a’r llywodraethwyr yn parhau i weithio’n agos gyda Chyngor Gwynedd a phartneriaid diogelu i sicrhau bod gwersi’r adolygiad hwn yn arwain at newid parhaol.

Mewn datganiad ar y cyd, dywedodd Cadeirydd a Phennaeth Dros Dro Ysgol Friars:

“Rydym yn hynod ddiolchgar i’r disgyblion, y teuluoedd, y staff ac eraill a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn. Mae eu dewrder a’u gonestrwydd dan amgylchiadau ofnadwy wedi bod yn hanfodol fel gall yr awdurdodau ddeall beth aeth o’i le, sut gall yr ysgol symud ymlaen a sut gall ysgolion eraill ddysgu o’r hyn ddigwyddodd yma.

“Rydym yn gwerthfawrogi pa mor anodd mae hyn wedi bod iddynt, ac rydym yn edmygu eu gwytnwch a’u dewder.

“Rydym yn croesawu bod yr adolygiad manwl hwn wedi ei gynnal o weithdrefnau sefydliadau – gan gynnwys yr ysgol – a bod gwersi yn cael eu dysgu a fydd yn cryfhau arferion diogelu ar draws Cymru.

“Fel ysgol, ni fyddwn byth yn colli golwg ar y troseddau erchyll a gyflawnwyd, nac ar gryfder y rhai a safodd i fyny ac a siaradodd. Rydym yn parhau i ymrwymo i ddysgu o’r trychineb hwn ac i sicrhau bod Ysgol Friars yn amgylchedd diogel a chefnogol i bob person ifanc gan roi’r dechrau gorau mewn bywyd i’n dysgwyr.

“Fyddwn ni byth yn anghofio’r hyn sydd wedi digwydd ac rydym yn talu teyrnged i’r goroeswyr, eu teuluoedd a’u ffrindiau am eu dewrder yn sefyll i fyny yn erbyn troseddau anfaddeuol.”

Mae’r adroddiad ‘Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder’ sy’n dilyn yr Adolygiad Ymarfer Plant, ar gael ar wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru: www.BwrddDiogeluGogleddCymru.cymru

Anogir unrhyw un sydd â gwybodaeth am droseddau, boed yn y gorffennol neu’r presennol, i gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru. Gellir gwneud adroddiadau’n gyfrinachol drwy www.heddlugogleddcymru.police.uk

**Nodiadau**

Mae llesiant disgyblion a staff Ysgol Friars ar frig blaenoriaethau arweinyddiaeth a llywodraethwyr yr ysgol. Er yn cydnabod diddordeb dealladwy’r wasg yn y mater yma, mae cais i newyddiadurwyr beidio â dod at giât yr ysgol ac i beidio amharu ar ddisgyblion na staff yr ysgol os gwelwch yn dda.

04/11/2025

**Ysgol Friars responds to the publication of the Child Practice Review**

On the day of the publication of the "Our Bravery Brought Justice" Report by the North Wales Safeguarding Board, Ysgol Friars has paid tribute to the pupils and former pupils who have suffered, apologises to them for having to endure such horrific experiences, and thank them for their courage.

The Governing Body and Leadership of Ysgol Friars fully accept the findings of the Child Practice Review. They also underline their absolute commitment to protecting and supporting all those affected by the crimes and cruel behaviour of the school's former headteacher.

The school's leadership and governors will continue to work closely with Cyngor Gwynedd and safeguarding partners to ensure that the lessons of this review lead to lasting change.

In a joint statement, the Chair and Interim Headteacher of Ysgol Friars said:

"We are extremely grateful to the pupils, families, staff and others who contributed to this investigation. Their courage and honesty under terrible circumstances have been vital so that the authorities could understand what went wrong, how the school can move forward and how other schools can learn from what happened here.

"We appreciate how difficult this has been for them, and we admire their resilience and courage.

"We welcome that this detailed review has been carried out of organisations' procedures – including the school's – and that lessons are being learnt that will strengthen safeguarding practices across Wales.

"As a school, we will never lose sight of the horrific crimes that were committed, or the strength of those who stood up and spoke out. We remain committed to learning from these terrible events and to ensuring that Ysgol Friars is a safe and supportive environment for all young people, giving our learners the best start in life.

"We will never forget what has happened and we pay tribute to the survivors, their families and friends for their courage in standing up against these unforgivable crimes."

The 'Our Bravery Brought Justice' report, which follows the Child Practice Review, is available on the North Wales Safeguarding Board website: www.BwrddDiogeluGogleddCymru.cymru

Anyone with information about crimes, whether past or present, is urged to contact North Wales Police. Reports can be made confidentially through www.heddlugogleddcymru.police.uk

**Notes**

The well-being of Ysgol Friars pupils and staff is the main priority for the school's leadership and governors. While recognising the understandable interest of the press in this matter, we kindly request that journalists do not come to the school gate and do not disturb pupils or school staff.

04/11/2025